## Bwletin o Batagonia 7 – y botwm aur gan Twm Elias

Y botwm aur *(Ranunculus peduncularis)* yw enw gwladfawyr ardal y Gaiman am y blodyn hwn sy'n tyfu ymysg llwyni'r paith. Mae'n blanhigyn meddyginiaethol, un o'r rhai y dysgodd yr arloeswyr cynnar am ei rinweddau oddiar y brodorion.

Unwaith mae'r blodyn wedi gorffen, a'r petalau wedi disgyn, mae'r pen yn cronni hylif claerwyn, sydd ychydig bach bach yn ludiog. Mae'r hylif hwn yn arbennig o dda i wella briwiau, crafiadau a brathiadau'r mosgitos sy'n medru bod yn niwsans yn y dre ac yng nghyffiniau'r afon a'r dyfrffosydd. Mi roddais gynnig arno ar rai o'r brathiadau ar fy mraich, ond heb brofion 'control' ni allaf brofi ei effeithiolrwydd. Ond o leiaf roeddwn yn teimlo'n dda yn fy meddwl.



Y botwm aur – enw hyfryd ar y blodyn